



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

61/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

22/11/2018

Alinio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru i'r Cyfnod Sylfaen

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-426-5

Alinio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru i'r Cyfnod Sylfaen

Awdur: Alison Glover, Stuart Harries, Jennifer Lane and Sioned Lewis, Arad Research ac NatCen Social Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Glover, A., Harries, S., Lane, J., Lewis, S.,
Gwerthusiad o Weithredu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn Gynnar. Caerdydd:
Llywodraeth Cymru, GSR report number 61/2018.

Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-childcare-offer-wales/?lang=cy>

Y safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw rheini'r ymchwilydd ac nid
o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Hannah Davies

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Hannah.Davies018@gov.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	4
Rhestr o ffigurau	5
Geirfa 6	
1. Rhagarweiniad	7
2. Methodoleg	15
3. Canfyddiadau	16
4. Casgliadau	28
5. Argymhellion	31
Cyfeiriadau.....	32
Atodiad A: Sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y gwerthusiad	34
Atodiad B: Model Rhesymeg y Cynnig Gofal Plant i Gymru	35
Atodiad C: Cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen yn yr EILAs a'r nifer sy'n manteisio hynny	36
Atodiad D: Fframwaith rhesymeg ar gyfer alinio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru i FPN	39

Rhestr o dablau

Tabl 1.1. Cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen ar draws EILAs	12
Tabl 2.1. Gwaith maes yn llywio alinio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru i'r Cyfnod Sylfaen	15

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1.1. Cyflenwi Darpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen ar draws awdurdodau lleol sy'n weithredwr cynnar (EILAs), (2016-17).....	11
---	----

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Cynnig Gofal Plant	30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio o blant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru – rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.
CSA	Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant - a gynhelir bob pum mlynedd gan awdurdodau lleol i nodi bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant.
Cylch meithrin	Mae cylch meithrin yn gylch chwarae cyfrwng Cymraeg (lluosog: cylchoedd)
Cwlwm	Childcare Wales Learning and Working Mutually - consortiwm o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru.
EILA	Awdurdod Lleol Gweithredwr Cynnar.
Dechrau'n Deg	Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ar gyfer plant (0-3 oed) a'u teuluoedd.
Cyfnod Sylfaen	Y cwricwlwm datblygiadol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru.
FPN	Darpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen - lleiafswm o 10 awr yr wythnos o addysg gynnar a ariennir ar gyfer plant tair a phedair oed yn ystod y tymor, o'r tymor yn dilyn trydydd pen-blwydd plentyn. Cyfeirir ati hefyd fel hawl addysg gynnar ac addysg gynnar a ariennir.
Darparwr a gynhelir	Meithrinfa a ariennir gan awdurdod lleol, gallant fod yn ysgolion meithrin annibynnol neu ynghlwm wrth ysgol gynradd neu ysgol fabanod.
NDNA	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Darparwr nas cynhelir	Lleoliad gofal plant sy'n cael ei weithredu gan ddarparwr gofal plant preifat, gwirfoddol neu annibynnol.
PACEY	Cymdeithas Proffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
CYBLD	Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion o Lefel Disgyblion.
Plant sy'n codi'n dair ac yn codi'n bedair	Plant sy'n mynd i droi'n dair oed rywbryd yn ystod y flwyddyn ysgol (cyfeirir atynt fel FPN1 weithiau). Plant sy'n codi'n bedair yw plant a fydd yn troi'n bedair oed rywbryd yn ystod y flwyddyn ysgol (FPN2).

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn un o dri phapur ychwanegol a gynhyrchwyd ochr yn ochr â'r prif adroddiad gwerthuso o weithredu cynnar (12 mis cyntaf) y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Ymchwil Arad ac Ymchwil Gymdeithasol NatCen rhwng Gorffennaf 2017 a Hydref 2018.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar alinio elfen gofal plant a ariennir gan y Cynnig i elfen Cyfnod Sylfaen y Cynnig. Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm datblygiadol ar gyfer yr holl blant tair i saith oed yng Nghymru a ddarperir mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Fe'i cynllunir i ddarparu ymagwedd sy'n seiliedig ar chwarae at addysgu a dysgu. 'Mae'n annog plant i fod yn greadigol, dychmygus ac i gael hwyl wrth wneud dysgu'n fwy effeithiol'.¹
- 1.3 Diffinnir Meithrinfa'r Cyfnod Sylfaen (FPN) fel addysg ran-amser i blant tair a phedair oed cyn mynd i addysg orfodol yn bum mlwydd oed. Darpariaeth FPN, ochr yn ochr â darpariaeth gofal plant a ariennir, a gynhwysir yn y Cynnig Gofal Plant 30 awr. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu FPN i'r holl blant o'r tymor ar ôl trydydd pen-blwydd y plentyn nes iddynt ddechrau addysg ysgol gynradd amser llawn. Felly, bydd rhai plant yn derbyn pum tymor, bydd rhai'n derbyn pedwar tymor a bydd rhai'n derbyn tri thymor o FPN, yn dibynnu ar pryd y cawsant eu geni.²
- 1.4 Roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar y dylanwad y gallai cyflwyno elfen gofal plant y Cynnig ei gael ar y cyflenwad cyfredol o FPN ac a fyddai'r cyflenwad cyfredol o'r elfen FPN yn dylanwadu ar weithredu elfen gofal plant y Cynnig. Y nod oedd peidio â gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen gan fod hwn wedi'i werthuso o'r blaen.³
- 1.5 Roedd y themâu penodol a archwiliwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn cynnwys:
 - a yw darparwyr gofal plant wedi amnewid cyflenwi FPN o blaid cyflenwi lleoedd gofal plant a ariennir;

¹ Llywodraeth Cymru (2018) [*Sut mae fy mhlentyn yn datblygu yn y Cyfnod Sylfaen? Canllaw i rieni*](#). t. 3. Ar gael yn: [Cyrchwyd 31 Hydref 2018]

² Llywodraeth Cymru (2018) [*Darpariaeth Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed: Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol*](#). t. 2. [Cyrchwyd 31 Hydref 2018]

³ [*Mae adroddiadau gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen*](#) ac [*Gwiriad annibynnol ar y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru*](#) (2014) [Cyrchwyd 31 Hydref 2018]

- a oedd rhieni yn ildio lle FPN eu plentyn er mwyn cyrchu gofal plant a ariennir; neu
- a oedd plant yn peidio â chyrchu elfen gofal plant a ariennir y Cynnig ac yn cyrchu'r elfen FPN yn unig.

- 1.6 Trafodir barnau lleoliadau gofal plant ar ddarparu'r FPN a/neu elfen gofal plant y Cynnig, a'r heriau a ddaeth i'r amlwg ynglŷn â dewis rhieni a gofal plant hefyd.
- 1.7 Mae'r adroddiad hwn yn cael ei lywio gan ymchwil ddesg, y cyfweiliadau cwmpasu a chyfweiliadau gyda darparwyr gofal plant sy'n darparu elfen gofal plant y Cynnig, rhieni a sefydliadau rhanddeiliaid y sector gofal plant ac addysg (gweler Atodiad A am fanylion), a gynhaliwyd i hysbysu gwerthusiad o weithredu'r Cynnig yn gynnar yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn trafod allbynnau, canlyniadau ac effaith bosibl elfen gofal plant y Cynnig ar yr elfen FPN.
- 1.8 Mae gweddill yr adran hon yn darparu cefndir, â throsolwg o'r Cynnig a chyflenwi'r Cyfnod Sylfaen ar draws y saith awdurdod lleol sy'n weithredwyr cynnar (EILAs).
- 1.9 Mae Adran 2 yn cyflwyno trosolwg o'r fethodoleg ac yn amlygu'r meysydd a ymchwiliwyd i sicrhau dealltwriaeth lawn o alinio elfen gofal plant y Cynnig ar FPN.
- 1.10 Mae Adran 3 yn trafod canfyddiadau'r gwerthusiad a thrafodir aliniad elfen gofal plant y Cynnig i FPN, barn darparwyr gofal plant ar y potensial ar gyfer newidiadau o ran cyflwyno FPN ac effaith y gofal plant a ariennir ar ddewis rhieni.
- 1.11 Mae Adran 4 yn cyflwyno'r casgliadau.
- 1.12 Mae Adran 5 yn cynnig argymhellion i'w hystyried wrth i'r Cynnig Gofal Plant gael ei weithredu ledled Cymru.

Y Cynnig Gofal Plant

- 1.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfanswm o 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth yn ystod y tymor a 30 awr yr wythnos o ofal plant am naw o'r 13 wythnos o wyliau ysgol.
- 1.14 Yn ystod amser tymor ysgol, mae gan blant sy'n cael eu cefnogi gan y Cynnig hawl i o leiaf 10 awr o FPN a hyd at 20 awr o ofal plant a ariennir. Mae'r cyfuniad o'r ddarpariaeth FPN a gofal plant a ariennir, yn cyfrif am y 30 awr o addysg a gofal plant a ariennir a gynhwysir yn y Cynnig.
- 1.15 Mae elfen gofal plant y Cynnig yn targedu plant tair a phedair oed lle mae eu rhieni yn ennill lleiafswm wythnosol sy'n gyfwerth i, neu sy'n fwy nag 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol.
- 1.16 Mae'r gymhareb o FPN i oriau gofal plant a ariennir sydd ar gael i blant cymwys yn ddibynnol ar nifer yr oriau FPN a ddarperir eisoes ym mhob ardal. Mae oriau'r ddarpariaeth FPN sydd ar gael yn amrywio rhwng awdurdodau lleol (ac mewn rhai achosion rhwng darparwyr FPN o fewn yr un awdurdod lleol). Oherwydd hynny, mae nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i gyfrif am y 30 awr o'r Cynnig yn amrywio hefyd ar draws ac o fewn awdurdodau lleol.
- 1.17 Mae canlyniadau arfaethedig y Cynnig yn cynnwys:
- Bydd gan rieni fwy o ddewisiadau cyflogaeth
 - Byddgan rieni incwm cynyddol i'w wario
 - Bydd rhieni'n gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch ddefnyddio gofal plant ffurfiol
 - Bydd y sector gofal plant yn tyfu mewn ymateb i alw a derbyniad cynyddol o ofal plant ffurfiol.
- 1.18 Mae Atodiad B yn darparu manylion pellach ar yr allbynnau a'r canlyniadau ar gyfer y Cynnig
- 1.19 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu o leiaf 10 awr yr wythnos o FPN a ariennir ar gyfer pob plentyn tair a phedair oed yn ystod amser y tymor.
- 1.20 Nodwyd sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn ategu'r elfen FPN fel ffactor llwyddiant critigol allweddol ar gyfer darparu'r Cynnig.


- 1.21 Ers Medi 2017 mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael yn y saith awdurdod lleol sy'n gweithredwyr cynnar (EILAs), a oedd yn cynnwys y cyfan, neu ran o, yr awdurdodau lleol dilynol;
- Ynys Môn a Gwynedd (gweithio ar y cyd)
 - Blaenau Gwent
 - Caerffili
 - Sir Fflint
 - Rhondda Cynon Taf
 - Abertawe.
- 1.22 Dechreuodd ceisiadau am ariannu lleoedd gofal plant o dan y Cynnig ym mis Mehefin 2017, er mwyn i blant gymryd lleoedd o fis Medi 2017. Y nifer o blant a gyrchodd y Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflwyno ar gyfer y saith EILA oedd 4,101.⁴ Cynhwyswyd awdurdod lleol Blaenau Gwent i gyd o'r cychwyn cyntaf. I ddechrau, roedd y Cynnig ar gael mewn rhannau o'r awdurdodau eraill, ag ardaloedd ychwanegol yn cael eu hychwanegu er mwyn ehangu argaeledd y Cynnig i fwy o blant ym mis Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018.

Cyflenwad cyfredol o FPN yn yr EILAs

- 1.23 Mae'n bwysig egluro'r ddarpariaeth bresennol o FPN ar draws y saith awdurdod lleol sy'n ymwneud â gweithredu'r Cynnig yn gynnar. Mae Ffigur 1.1 yn cyflwyno modelau cyflenwi FPN ar gyfer pob EILA. Mae Tabl 1.1 yn cynnwys manylion pellach o nodweddion cyflenwi FPN ar gyfer pob un o'r EILAs hyn, gan gynnwys y gyfradd fesul awr a dalwyd am ddarparwyr nas cynhelir i gyflenwi FPN.

⁴ Data monitro Llywodraeth Cymru.

Ffigur 1.1. Cyflenwi Darpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen ar draws awdurdodau lleol sy'n weithredwr cynnar (EILAs), (2016-17).



Ffynhonnell: Asesiadau Digonolrwydd Plant 2017. Map wedi'i greu yn Piktochart

1.24 Mae Ffigur 1.1 yn dangos yr amrywiad yn y broses gyfredol o gyflenwi FPN ar gyfer plant tair a phedair oed ledled Cymru, â gwahaniaeth amlwg rhwng gogledd a de Cymru. Er enghraifft, mae lleoliadau nas cynhelir yn Ynys Môn a Gwynedd yn ffurfio bron i hanner y cyflenwi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ag ychydig dros chwarter mewn lleoliadau nas cynhelir yn Sir y Fflint. Ond yn ne Cymru mae lleoliadau nas cynhelir yn cyflenwi cyfran lawer llai; yn amrywio o Rhondda Cynon Taf ag ychydig o dan un rhan o bump o'r ddarpariaeth i Abertawe lle mae'r holl ddarpariaeth FPN yn cael ei chyflenwi mewn ysgolion.

Tabl 1.1. Cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen ar draws EILAs

EILA	Nifer o leoliadau Nas Cynhelir*	Nifer o leoliadau a Gynhelir*	Cyfanswm y lleoliadau sy'n cynnig y Cyfnod Sylfaen	Cyfradd Gyfnod Sylfaen gyfartalog fesul awr ar gyfer darparwyr nas cynhelir**
Ynys Môn a Gwynedd	Ynys Môn – 32 Meithrin a 10 cylch chwarae Gwynedd – 62 Meithrin; 1 cylch chwarae; 3 gofal dydd llawn	Ynys Môn – 41 Gwynedd – 89	238	Ynys Môn - £2.10 Gwynedd - £1.49
Blaenau Gwent	2	24	26	£3.43
Caerffili	12	71	83	£4.24
Sir y Fflint	60 (22 gofal dydd a 38 sesiynol)	21	81	£2.92
Rhondda Cynon Taf	25 (6 gofal dydd ac 19 sesiynol)	102	127	£5.00
Abertawe		79	79	Dim darparwyr nas cynhelir
Cyfanswm	207	427	634	

Ffynhonnell: *Asesiadau Digonolrwydd Plant (2017).

**Cwlwm (2018) Cyllid awdurdodau lleol i ddarparwyr nas cynhelir y Cyfnod Sylfaen⁵

- 1.25 Tynnir cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen o'r cyllid bloc a ddyrennir i awdurdodau lleol. Yna, mae awdurdodau lleol unigol yn penderfynu ar y tâl a ddyfernir i ddarparwyr FPN.
- 1.26 Mae data'n gyfyngedig ond mae'n awgrymu bod y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr FPN yn amrywio o £2.50 i £4.47 yr awr fesul plentyn ar draws awdurdodau lleol, â chanolrif o £3.00. Hefyd, mae rhai yn talu cyfradd wahanol i leoliadau a gynhelir a'r rhai nas gynhelir.⁶
- 1.27 Fodd bynnag, nid yw cyllid FPN o reidrwydd yn cael ei dalu fesul awr ac mae ystod o ddulliau'n cael eu defnyddio i benderfynu ar y taliad. Er enghraifft, cyfradd safonol

⁵ Cwlwm (2018) [Cyllid awdurdodau lleol i ddarparwyr nas cynhelir y Cyfnod Sylfaen](#). Deunydd ychwanegol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Mehefin 2018. (eitem 3.3)

⁶ [Nodyn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#), a ddarparwyd mewn llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2018, (Rhif tystiolaeth FI CCF 07).

yr wythnos fesul plentyn, cyfradd safonol fesul plentyn fesul tymor, ariannu staff i ddiwallu'r cymarebau gofynnol, neu ariannu ar gyfer nifer penodol o leoedd.⁷

- 1.28 Mae cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)⁸ yn adrodd am nifer cofrestredig y disgyblion FPN ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r data hwn yn awgrymu bod derbyniad FPN yn uchel iawn (89 y cant a 98 y cant o blant tair a phedair oed yn eu tro). Wrth wneud cais am elfen gofal plant a gyllidir y Cynnig, gofynnir i rieni a yw eu plentyn yn cyrchu FPN neu a ydynt yn bwriadu i'w plentyn gyrchu FPN. Mae data monitro yn awgrymu bod presenoldeb FPN ymhlith y rhai hynny sy'n cymryd y Cynnig yn is na'r nifer cofrestredig o ddisgyblion FPN a gofnodwyd ar CYBLD; rhwng 28 y cant ac 89 y cant ar draws tri awdurdod lleol sy'n weithredwyr cynnar ym mlwyddyn un y Cynnig (data ddim ar gael ar gyfer pob EILA). Efallai y gellir esbonio'r gwahaniaeth hwn gan y ffaith bod rhai rhieni'n cyrchu'r Cynnig, heb ddeall yn llawn, neu fod yn ymwybodol o beth yw FPN ac felly'n peidio â chwblhau'r ffurflenni cofrestru, a ddefnyddir i lywio'r data monitro, yn gywir.
- 1.29 Mae Atodiad C yn cynnwys gwybodaeth bellach ynghylch cyflenwi FPN ar draws yr EILAs, ynghyd â gwybodaeth ynghylch lefelau derbyn sy'n cael ei llywio gan Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (CSA) pob EILA yn 2017.

⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2018) [*Bil Gofal Plant, gofynnwyd am wybodaeth bellach gan y pwyllgor*](#). [Accessed 22 October 2018]

⁷ Mae [*PLASC yn gasgliad electronig o ddata ar lefel disgyblion ac ysgolion a ddarperir gan bob ysgol gynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig yn y sector cynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn*](#). [Cyrchwyd 23 Hydref 2018]

⁸ Llywodraeth Cymru (2016) [*Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol 2016*](#).

Cynlluniau Peilot Hyblygrwydd

1.30 Ym mis Rhagfyr 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad o gynlluniau peilot hyblygrwydd FPN.⁹ Nodau'r Cynlluniau Peilot Hyblygrwydd oedd:

- i. Profi'r opsiynau hyblygrwydd ar draws y Cyfnod Sylfaen yn y lleoliadau a gynhelir ac nas cynhelir a ariennir;
- ii. Nodi materion a allai ddod i'r amlwg ar gyfer awdurdodau lleol a lleoliadau o ganlyniad i ddarparu neu geisio darparu mwy o hyblygrwydd;
- iii. Ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r materion hynny trwy atebion cost isel/dim cost;
- iv. Ennill dealltwriaeth well ynghylch a yw hyblygrwydd cynyddol yn gwneud gwahaniaeth i allu rhiant i gyrchu'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer eu plentyn.

1.31 Fe ddaeth y gwerthusiad annibynnol i'r casgliad bod angen ystyried yn ofalus pwy sy'n elwa o hyblygrwydd cynyddol. Mae'n nodi y gallai hyblygrwydd cynyddol i rieni gynyddu pwysau ar staff ysgol ac y gallai gael effaith negyddol ar blant. Er y teimlwyd bod llawer o'r mathau o hyblygrwydd yn gweithio'n dda iawn, a bod ychydig iawn o dystiolaeth o unrhyw effaith negyddol ar blant, mae'n hanfodol bod gweithredu darpariaeth hyblyg yn y dyfodol yn sensitif i'r materion hyn.¹⁰ Mae canfyddiadau gwerthusiad y Cynnig Gofal Plant yn cefnogi hyn (gweler prif adroddiad gwerthusiad y Cynnig Gofal Plant i Gymru am ragor o fanylion).

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2016) [*Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol 2016*](#).

2. Methodoleg

- 2.1 Ymgwymerwyd ag ymagwedd ddulliau cymysg i gasglu adborth ynghylch alinio elfen ofal plant a ariennir y Cynnig i elfen Gyfnod Sylfaen y Cynnig. Archwiliwyd y data monitro a gweinyddol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan bob EILA ac ymgwymerwyd â'r ystod o waith maes a amlinellir yn Nhabl 2.1.

Tabl 2.1. Gwaith maes yn llywio alinio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru i'r Cyfnod Sylfaen

Cyfranogwr	Dull	Nifer o ymatebwyr	Pryd
Swyddogion Llywodraeth Cymru	Cyfweliadau ffôn ac wyneb yn wyneb	11	Trwy gydol y cyfnod gwerthuso
Pob cynrychiolydd tîm Cynnig Gofal Plant EILA	Cyfweliadau wyneb yn wyneb	1-4 o staff ym mhob EILA; 18 cyfweliad	Hydref 2017; Yn gynnar yn 2018 a Medi 2018
Sefydliadau rhanddeiliaid allweddol*	Cyfweliadau ffôn ac wyneb yn wyneb	14	Gorffennaf i Fedi 2018
Darparwyr Gofal Plant yn Cyfranogi	Cyfweliadau ffôn	150	Mawrth i Fedi 2018
Rhieni'n cymryd rhan	Arolwg ar-lein	555	Mai 2018
Rhieni'n cymryd rhan	Cyfweliadau ffôn	36	Awst/Medi 2018
Rhieni heb gymryd rhan	Cyfweliadau ffôn	21	Awst/Medi 2018

Sylwer: gellir canfod rhagor o wybodaeth am y fethodoleg yn adran fethodoleg y prif adroddiad gwerthuso.

*Mae Atodiad A yn cynnwys y rhestr o randdeiliaid a gyfwelwyd.

Fframwaith rhesymeg

- 2.2 Mae'r fframwaith rhesymeg (Atodiad D) yn amlinellu cwestiynau'r gwerthusiad a'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i asesu i ba raddau mae gweithgareddau a anelwyd at alinio gofal plant a ariennir ag FPN wedi dylanwadu ar yr allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnwyd.

3. Canfyddiadau

Darpariaeth FPN gyfredol

- 3.1 Ar hyn o bryd mae chwarter y darparwyr gofal plant a gyfwelwyd, sy'n cyflenwi elfen ofal plant y Cynnig, yn cael eu hariannu i gyflenwi FPN.
- 3.2 Dywedodd llawer o randdeiliaid a thimau Cynnig EILA, yn eu barn hwy, er bod eu sylfeini deddfwriaethol ar gyfer Gofal Plant ac Addysg yn wahanol, y byddai cydweithio a dealltwriaeth bellach rhwng y ddau, o fewn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn fuddiol; yn arbennig o ran alinio elfennau FPN a gofal plant y Cynnig. Cyflawnwyd cynnydd yn y cyfeiriad hwn eisoes, gan gynnwys penodi Swyddog Alinio yn nhîm FPN Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r Cynnig. Mae'r barnau a fynegwyd gan randdeiliaid a thimau Cynnig EILA yn awgrymu y bydd angen i gynnydd tuag at alinio gwell fel hyn barhau er mwyn annog mwy o arferion cydweithio rhwng darparwyr addysg gynnar a gofal plant.
- 3.3 Mae dealltwriaeth rhieni o sut mae elfen ofal plant y Cynnig a'r FPN yn gweithio gyda'i gilydd yn ymddangos yn gymysg. Er enghraifft, nododd un rhiant a oedd yn cymryd rhan yn y Cynnig 'nad oedd hi'n siŵr sut oedd [y Cynnig] yn gweithio â'r Cyfnod Sylfaen'. Er bod un arall yn dweud 'roedd yn amlwg bod y cynnig yn cynnwys y Cyfnod Sylfaen a gofal plant'. Fodd bynnag, roedd y rhiant hwn hefyd o'r farn y gallai'r dyraniad rhwng y ddwy elfen fod yn fwy eglur, e.e. 'Gallent ddweud bod 12.5 awr mewn meithrinfa a 17.5 o ofal plant o dan y Cynnig'. Fodd bynnag, nodir na fyddai ymgyrch cyfathrebu a marchnata cyffredinol ledled Cymru, sy'n cynnwys oriau penodol ar gyfer pob elfen o'r Cynnig, yn bosibl gan fod yr oriau FPN yn amrywio rhwng pob awdurdod lleol. Eto i gyd mae potensial i awdurdodau lleol unigol sicrhau bod rhaniad yr oriau yn glir i rieni ei ddeall.
- 3.4 Nid adroddodd unrhyw un o'r EILAs eu bod wedi gweld unrhyw newidiadau yn nifer y plant sy'n cyrchu FPN ers cyflwyno'r Cynnig, a chefnogwyd hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i leoliadau gymryd cofrestr o bresenoldeb FPN. O ganlyniad, er bod awdurdodau lleol yn gwybod faint o blant sydd wedi'u cofrestru i gyrchu FPN, nid ydynt yn gwybod faint o oriau neu ddyddiau o ddarpariaeth FPN mae plant wedi'u mynychu.

- 3.5 Mewn rhai awdurdodau lleol, dim ond trwy leoliadau a gynhelir y cynnig FPN. Dywedodd rhai darparwyr gofal plant sy'n cynnig gofal dydd, a nifer o warchodwyr plant a gyfwelwyd a oedd wedi'u lleoli yn yr awdurdodau lleol hyn, y byddent yn croesawu'r cyfle i gyflenwi darpariaeth FPN ond na allent wneud hynny.
- 3.6 Mae awdurdodau lleol unigol yn pennu a ddarperir FPN a ariennir gan y sector a gynhelir neu'r sector nas cynhelir neu drwy gyfuniad o'r ddau. Fodd bynnag, roedd nifer o warchodwyr plant mewn ardaloedd awdurdodau lleol, lle mae lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir yn gallu cyflenwi FPN, o dan yr argraff na allent gyflenwi FPN. Ymddengys fod hyn yn adlewyrchu camsyniad ymhlith darparwyr gofal plant, gan fod cyflenwi FPN mewn lleoliad nas cynhelir, yn cynnwys meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, cylchoedd meithrin a gwarchodwyr plant, gan fod hyn yn sicrhau hyblygrwydd a hygyrchedd i'r holl rieni.¹¹
- 3.7 Serch hynny, dywedodd nifer o warchodwyr plant a rhanddeiliaid, â sefyllfa bresennol gwarchodwyr plant sy'n tueddu i beidio â chyflenwi FPN, mae'n rhaid i bob plentyn sy'n cyrchu'r Cynnig gyda gwarchodwr plant fynd i leoliad arall er mwyn cyrchu FPN. O ganlyniad, nid yw gwarchodwyr plant o reidrwydd yn ystyried bod y Cynnig yn sylfaen gref ar gyfer eu cynaliadwyedd yn y dyfodol oherwydd, mewn llawer o achosion, maent yn elwa dim ond o gael plant a gefnogir gan y Cynnig gyda nhw am hanner y diwrnod h.y. i gyrchu elfen gofal plant y Cynnig ar y llaw arall mae plant iau sy'n talu ffioedd yn fwy tebygol o fod gyda nhw am ddiwrnod cyfan ac felly maent yn aml yn cael eu hystyried gan warchodwyr plant i fod yn fwy masnachol hyfyw na phlant hŷn, a ariennir gan y Cynnig, sydd gyda nhw am hanner diwrnod yn unig. Nododd PACEY hefyd y byddai llawer o warchodwyr plant yn croesawu'r cyfle i gyflenwi FPN gan ei fod yn cael ei ystyried fel modd darparu mwy o gynaliadwyedd i'w busnes a'i fod yn cynnig y gallu i rieni gyrchu FPN a gofal plant yn yr un lleoliad.
- 3.8 Yn aml, mae angen i ddarparwyr gofal plant, sydd heb eu cofrestru i gyflenwi FPN ond sy'n gofalu am blant sy'n cyrchu FPN, fynd â'r plant hyn o'u lleoliad i'r leoliad

¹¹ Llywodraeth Cymru (2018) [*Darpariaeth Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed: Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol*](#). t. 4.[Cychwyd 31 Hydref 2018]

FPN a'u casglu'n hwyrach a'u dychwelyd i'r lleoliad gofal plant (gan ddarparu gofal cynhwysfawr). Nododd dwy ran o dair o'r rhieni a gyfwelwyd fod eu plentyn yn mynychu lleoliad gwahanol er mwyn cyrchu FPN. Gall logisteg hyn fod yn anodd; efallai y bydd angen i ddarparwyr gofal plant gael mynediad i gerbyd, yn dibynnu ar ba mor bell y maent o'r lleoliad FPN, a staff cymwys addas. Os yw gwarchodwr plant yn gweithredu ar ei phen ei hun ac mae ganddi blant iau eraill yn eu gofal am ddiwrnodau llawn, gall cludo plant mewn cerbydau neu ar droed fod yn anodd. Gall yr heriau logistaidd hyn ddylanwadu ar ddewis rhieni, oherwydd efallai y bydd rhieni am gyrchu darparwr sy'n gallu cyflenwi'r elfen gofal plant y Cynnig a'r FPN yn yr un lleoliad, trafodir y mater hwn ymhellach yn adran 3.24.

- 3.9 Mae nifer o ddarparwyr gofal plant erioed wedi cynnig gwasanaeth cynhwysfawr i rieni, gan godi a gollwng plant mewn lleoliadau eraill er mwyn cyrchu FPN. Fe wnaeth darparwyr gofal plant sylwadau ar berthnasoedd a oedd eisoes yn bodoli ag ysgolion i ddarparu'r gwasanaeth cynhwysfawr hwn. Fodd bynnag, nododd un tîm Cynnig EILA a darparwr gofal plant fod un darparwr a gynhelir yn gweithio bob yn ail rhwng cyflenwi sesiynau FPN bore a phrynhawn ar sylfaen dymhorol. Roedd hyn yn creu anawsterau ar gyfer darparwyr gofal plant a oedd yn cynnig gofal cynhwysfawr ar gyfer plant a oedd yn cyrchu'r ddarpariaeth FPN hon. Nododd darparwyr gofal plant eraill eu bod yn darparu gofal cynhwysfawr ar gyfer plant a oedd yn cyrchu FPN yn ystod amser cinio. Gall hyn gynnwys plant sy'n cyrchu gofal plant gyda nhw yn y bore ac FPN mewn lleoliad arall yn y prynhawn; plant sy'n cyrchu FPN mewn lleoliad arall yn y bore a gofal plant gyda nhw yn y prynhawn yn ogystal â phlant sydd angen gofal cynhwysfawr yn ystod amser cinio yn unig cyn neu ar ôl eu darpariaeth FPN. Nododd y darparwyr hyn y gall cynnal cymarebau staffio yn ystod y cyfnodau 'tagfeydd' hyn fod yn heriol ac ar brydiau maent yn wynebu'r risg o gael mwy na'r nifer cofrestredig o blant yn eu gofal am gyfnodau byr. Nododd un darparwr fod hwn yn fater allweddol y bu'n rhaid iddynt ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid ehangu eu darpariaeth gofal plant ai peidio.

Cyllid

- 3.10 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae darparwyr yn derbyn cyfradd uwch fesul awr i ddarparu gofal plant a ariennir trwy'r Cynnig nag a wnânt i gyflenwi darpariaeth FPN a ariennir. Un pryder a godwyd gan lawer o randdeiliaid ar y cychwyn oedd y byddai'r gwahaniaeth hwn mewn cyfraddau ariannu yn annog rhai darparwyr nas cynhelir, sydd ar hyn o bryd yn cyflenwi FPN a gofal plant yn yr un lleoliad, i gyfnewid eu darpariaeth gyfredol o FPN am leoedd gofal plant ychwanegol a ariennir gan y Cynnig. Er bod rhai EILAs wedi dweud bod darparwyr wedi trafod y posibilrwydd o dynnu'n ôl rhag cyflenwi'r FPN, nid yw'n ymddangos bod hyn wedi digwydd eto.
- 3.11 Mae'r gwahaniaethau hyn mewn cyfraddau ariannu i gyflenwi FPN a gofal plant a ariennir gan y Cynnig wedi arwain at rai galwadau am fwy o gydraddoldeb rhwng y cyfraddau ariannu a delir. Fe adroddodd arolwg diweddar gan y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd (NDNA) fod 97 y cant o feithrinfeidd yn credu y dylai'r gyfradd FPN fod yr un fath â'r gyfradd ar gyfer elfen ofal plant y Cynnig Gofal Plant.¹² Adroddwyd bod y gyfradd gyfartalog fesul awr a dderbyniwyd ar gyfer FPN oedd £3.08.¹³
- 3.12 Mae tystiolaeth anecdotaidd sy'n dod i'r amlwg hefyd yn awgrymu bod rhai darparwyr mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn ystyried rhoi'r gorau i'w darpariaeth o leoedd gofal plant a ariennir gan Dechrau'n Deg er mwyn rhyddhau lleoedd ar gyfer plant sy'n cael eu cefnogi gan y Cynnig Gofal Plant. Ymddengys fod hyn yn cael ei ysgogi gan hyfywedd masnachol. Nid yw'r gwahaniaethau yn y cyfraddau lleol a delir i gyflenwi gofal plant a gefnogir trwy Ddechrau'n Deg a gofal plant a gefnogir gan y Cynnig mor eang â'r gwahaniaeth mewn cyfradd gyflog rhwng FPN ac elfen gofal plant y Cynnig. Er bod Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant yn cyflenwi darpariaeth debyg maent yn cael eu cyfeirio tuag at blant o wahanol oedrannau. Fodd bynnag, mae angen mwy o aelodau staff i ofalu am blant dwy flwydd oed o'i gymharu â phlant tair a phedair oed, oherwydd y cymarebau isafswm gwahanol. Mae hyn yn arwain at gostau uwch fesul plentyn i gyflenwi gofal plant i blant o dan

¹² NDNA (2018) [Arolwg o Feithrinfeidd Cymru](#). t. 4. Derbyniodd yr arolwg 122 o ymatebion gan y sector gofal plant yng Nghymru.

¹³ NDNA (2018) [Arolwg o Feithrinfeidd Cymru](#). t. 8.

dair oed, a'r gymhareb hon sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch hyfywedd masnachol ar gyfer rhai darparwyr sy'n cyflenwi Dechrau'n Deg a'r Cynnig ar hyn o bryd.

Newidiadau i'r ddarpariaeth

- 3.13 Er na ddaeth tystiolaeth i'r amlwg yn ystod cyfweiliadau'r darparwyr gofal plant o ddarparwyr yn cyfnewid lleoedd FPN ar gyfer elfen ofal plant y Cynnig, dywedodd un tîm Cynnig EILA fod chwe lleoliad nas cynhelir yn eu hardaloedd wedi penderfynu ei fod yn well iddynt ddarparu elfen ofal plant y Cynnig yn unig. Fodd bynnag, oherwydd rhwymedigaethau contractiol â'r awdurdod lleol, bydd newidiadau o'r fath yn cymryd amser i'w gweithredu. Adroddodd tîm Cynnig EILA arall, er eu bod wedi disgwyl i rai darparwyr nas cynhelir symud i ffwrdd o ddarpariaeth FPN, nid yn unig nid yw hyn wedi digwydd hyd yn hyn, ond maent hefyd wedi cael ychydig o ddarparwyr newydd nas cynhelir yn cofrestru i gyflenwi FPN. Nododd tîm Cynnig EILA arall eu bod wedi apelio'n llwyddiannus at 'bwrpas cymunedol' y darparwr gofal plant er mwyn eu darbwyllo rhag rhoi'r gorau i'w darpariaeth o FPN.
- 3.14 Yn ystod cyfweiliadau darparwyr ar gyfer y gwerthusiad hwn, dywedodd chwe darparwr gofal plant nas cynhelir y gallent ystyried newid eu cymysgedd o ddarpariaeth yn y dyfodol o bosib tuag at beidio â chynnig darpariaeth FPN mwyach.
- 'Mae mwy o [rieni] yn dewis anfon plant i'r ysgol ac yn defnyddio gwasanaeth cynhwysfawr gyda ni. Rydym yn ystyried gollwng statws darparwr Addysg o ddifrif.' (Darparwr gofal dydd llawn)
- 3.15 Nododd un tîm Cynnig EILA os bydd lleoliadau nas cynhelir yn rhoi'r gorau i gynnig FPN ni fyddai digon o allu o fewn lleoliadau ysgol a gynhelir i gymryd yr holl blant sy'n dymuno cyrchu FPN. Felly, yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod elfennau FPN a gofal plant y Cynnig yn gweithio'n dda ochr yn ochr.
- 3.16 Codwyd y gwaith ychwanegol sy'n ofynnol i ddarparu'r elfen FPN gan nifer fach o ddarparwyr gofal plant. Dywedodd un darparwr sy'n darparu FPN ar gyfer y Plant

fy'n Codi'n Dair, fod yr FPN yn galw am lawer o waith ychwanegol i staff, ac nid oedd y cyllid yn cwmpasu hyn. Ar adegau penodol o'r flwyddyn roedd angen staff ychwanegol i alluogi staff i ymdopi â'r gwaith papur ac roedd hyn yn gosod pwysau na ellir eu rheoli ar staff. Myfyriodd y darparwr ar ddisgwyliadau rhieni ar gyfer yr FPN ac elfen ofal plant y Cynnig gan nodi;

'Mae pob rhiant yn gofyn a ydym yn gwneud y Cynnig Gofal Plant, ond ni chewch unrhyw un yn gofyn a ydym yn cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen. Nid oes gennym unrhyw un yn dod yma yn benodol ar gyfer hynny. Nid ydym wedi gofyn i rieni eto "os byddwn ni'n rhoi'r gorau i'r Cyfnod Sylfaen a fyddwch chi'n aros gyda ni?" Rydym yn gwneud y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y rhai hynny sydd erioed wedi bod gyda ni. Gyda'r Cyfnod Sylfaen, ar ddechrau'r flwyddyn, mae dau neu dri yn y grŵp a rhaid iddynt gael dau aelod o staff oherwydd y gwaith papur. Ar ei brysuraf, yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gall fod hyd at 10 yn y grŵp. Felly mae'n costio arian ychwanegol i ni drwy gydol y flwyddyn i gyflenwi FPN ac ymddengys nad yw'r rhieni'n poeni am yr hyn maen nhw'n ei gael ganddo. Fe fyddwn ni'n meddwl ymhen 6-12 mis, rydym yn aros i weld sut mae'r 30 awr yn mynd.' (Darparwr gofal dydd llawn)

- 3.17 Mae'r ymateb uchod yn cefnogi sylwadau cynharach nad yw rhieni o bosibl yn deall yn llawn beth yw FPN.

Addysg a gofal plant

- 3.18 Mae cyfweiliadau â thimau cynnig EILA yn cefnogi'r safbwyntiau a nodir uchod, nad yw rhai rhieni yn deall yn glir y gwahaniaeth rhwng 'addysg gynnar a gofal plant'. Mae'n ymddangos hefyd bod rhywfaint o ddryswch ymhlith darparwyr gofal plant, gyda rhai yn dweud eu bod yn credu nad oedd gan blant hawl i elfen ofal plant y Cynnig nes eu bod yn cymryd eu lle FPN. Hefyd adroddodd darparwyr gofal plant am rai achosion, lle cafodd rhieni eu hysbysu'n anghywir gan ddarparwr FPN nad oeddent yn gymwys ar gyfer elfen ofal plant y Cynnig oni bai eu bod hefyd yn cymryd darpariaeth FPN. Dywedodd darparwr arall sy'n cynnig FPN ar gyfer Plant fy'n Codi'n Dair fod rhieni'n dewis anfon eu plentyn i feithrinfa'r ysgol yn y gred na

fyddent yn sicr o gael lle yn y feithrinfa ar gyfer y flwyddyn cyn y flwyddyn Dderbyn pe na fyddent yn defnyddio'r feithrinfa ar gyfer yr elfen Plant fy'n Codi'n Dair.

- 3.19 Dywedodd rhywfaint o leoliadau gofal plant eu bod wedi dechrau cynnig FPN yn ddiweddar, gan ddweud bod rhesymau dros hyn yn cynnwys y gallu i'w wneud yn haws i rieni, a lleihau'r angen i blant symud yn ôl ac ymlaen rhwng gwahanol leoliadau. Nododd y darparwyr hyn fod eu penderfyniad i wneud hyn wedi'i atgyfnerthu gan hoffter rhieni ar gyfer y math hwn o drefniant.

'Mae'r Cynnig Gofal Plant a'r addysg blynyddoedd cynnar yn gweithio'n dda gyda'i gilydd - yn yr un lleoliad.' (Darparwr gofal dydd llawn)

'Byddai wedi bod yn wych, i gael popeth yn yr un lleoliad.' (Rhiant)

Goblygiadau ar gyfer cyllido

- 3.20 Dywedodd un cylch meithrin eu bod wedi bod yn cael trafferthion ariannol yn ystod y blynyddoedd diweddar ac awgrymodd mai'r rheswm am hyn oedd bod y gyfradd gyllido a dderbyniwyd ganddynt i ddarparu FPN yn rhy isel. Fodd bynnag, ers i'r Cynnig gael ei gyflwyno, maent wedi defnyddio'r refeniw ychwanegol maent yn ei gasglu o'r gyfradd gofal plant gymharol uwch a ddarperir trwy'r Cynnig, i roi cymhorthdal i gyflogau staff er mwyn cefnogi cyflenwi FPN. Nid ymddengys bod hon yn ymagwedd gynaliadwy ar gyfer y lleoliad hwn.
- 3.21 Hefyd nododd rhai darparwyr gofal plant eu bod wedi cyflwyno taliadau am gludiant; sef codi tâl am filltiroedd neu ffioedd codi/casglu sefydlog i rieni am y teithiau i leoliad FPN ac oddi yno. Dywedodd un darparwr eu bod wedi cyflwyno'r taliadau hyn ar gyfer plant Cynnig Gofal Plant yn unig, roedd ffioedd ar gyfer plant nad oeddent yn blant Cynnig Gofal Plant ar gyfer cludiant (a phrydau) wedi'u cynnwys yn y gyfradd ddyddiol a godir. Fodd bynnag, mae gosod gwahanol daliadau ychwanegol am wasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr gofal plant i rieni â phlant a ariennir gan y Cynnig a'r rhai nad ydynt, yn groes i'r cyfarwyddyd ar gyfer cyflenwi'r Cynnig. Fodd bynnag, ymddengys nad oedd y darparwr hwn yn ymwybodol o hyn.

Dewis rhieni

3.22 Dywedodd darparwyr gofal plant fod llawer o rieni fel pe baent yn dymuno anfon eu plant i'r ysgol i gael FPN oherwydd mae hyn yn galluogi'r plentyn i 'ddod yn gyfarwydd â'r ysgol'. Bydd rhieni sy'n cyrchu FPN mewn ysgolion yn aml yn defnyddio darparwyr gofal plant i gael gofal amlapiol.

3.23 Fel y trafodwyd eisoes, ceir camsyniad na all gwarchodwyr plant gyflenwi FPN, ac oherwydd hynny, dywedodd sawl un y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gallu gwneud hynny;

'Ni chaniateir i ofalwyr plant gofrestru ar gyfer darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar - pe gallem ni, byddem ni'n ystyried gwneud hynny o ddifrif er mwyn gallu manteisio'n llawn ar y 30 awr sydd ar gael trwy'r Cynnig'. (Gwarchodwr Plant)

3.24 Mae rhieni plant sy'n gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant sydd ar hyn o bryd yn dymuno cael gofal plant trwy law gofalwr plant a chyrchu FPN naill ai yn gorfod derbyn fod yn rhai mynd â'u plentyn i ddau leoliad gwahanol i gael dwy elfen y ddarpariaeth, neu ddewis rhwng cael y naill neu'r llall. Yn gyffredinol, ni chaiff FPN ei gyflenwi mewn lleoliadau gofal plant, felly mae hyn yn gorfodi rhieni y mae eu plant yn derbyn gofal gan ofalwyr plant i ddefnyddio dau leoliad gofal plant gwahanol, defnyddio gofal amlapiol a chludiant.

Darpariaeth amlapiol

3.25 Roedd y rhan fwyaf o rieni (17 o blith 23 rhiant a gyfwelwyd oedd yn cyrchu gofal plant a FPN o leoliadau gwahanol) yn ystyried fod y broses o fynd â'u plentyn o un lleoliad i un arall yn 'iawn' a 'ddim yn broblem'. Fe wnaeth rhai rhieni ychwanegu at y pwynt hwn trwy nodi fod y pellter rhwng y ddau leoliad yn 'ddau funud ar droed' neu 'maent ar yr un safle'.

3.26 Mae'r angen am gludiant i fynd â phlant rhwng FPN a lleoliadau gofal plant bob amser wedi bod yn ofynnol i nifer o rieni, ac nid yw'n ofyniad sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil y Cynnig. Fodd bynnag, wrth i ragor o rieni fanteisio ar y Cynnig, ac felly, ceisio cyrchu gofal plant a FPN, mae'r galw am ofal amlapiol yn cynnwys cludiant yn debygol o gynyddu.

- 3.27 Cafwyd sylwadau gan ddarparwyr gofal plant dydd a gofalwyr sesiynol ynghylch i ba raddau maent yn darparu cludiant i fynd a dod o leoliadau FPN eraill; dywedodd un darparwr y byddant yn 'cludo plant i leoliadau ac oddi yno 35 gwaith yr wythnos'. Oherwydd y ffaith nad oeddent yn gallu cyflenwi FPN, dywedodd y darparwr eu bod yn bryderus y byddai rhieni yn dewis defnyddio darparwyr gofal plant eraill os na fyddent yn darparu cludiant rhwng lleoliadau, yn enwedig o ystyried fod un darparwr gofal plant wedi'i leoli ar safle ysgol.
- 3.28 Fe wnaeth un aelod o dîm Cynnig EILA gyfeirio at enghraifft o ddarparwr gofal plant na allai gofrestru plentyn i gael elfen gofal plant y cynnig yn eu lleoliad, oherwydd nid oeddent yn gallu cynnig y cludiant ychwanegol gofynnol i'r lleoliad FPN ac oddi yno. Digwyddodd hyn ar waethaf y ffaith fod y darparwr wedi cofrestru i ddarparu rhagor o leoedd gofal plant ac roedd lle ar gael i wneud hynny. Yn debyg i'r pwyntiau a grybwyllwyd eisoes, roedd rhai o'r anawsterau a wynebid gan y darparwr hwn yn deillio i'r angen i sicrhau fod cyfraddau staffio yn parhau yn ddigonol ar adegau pan oedd aelodau eraill o staff yn gorfod gadael y lleoliad pan fyddai plant yn cael eu cludo i leoliad FPN ac oddi yno.
- 3.29 Ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant, dywedodd un darparwr eu bod wedi ehangu'r cludiant i gynnwys cludo ail ysgol ac oddi yno, oherwydd roedd rhiant wedi gofyn am hynny wrth gyrchu elfen gofal plant y Cynnig. Roedd darparwr arall yn ystyried prynu cerbyd i'w galluogi i gynnig cludiant i blant rhwng lleoliad FPN a'r lleoliad gofal plant. Dywedodd un rhiant eu bod wedi newid darparwyr i sicrhau fod cludiant ar gael.
- 3.30 Mewn rhai ardaloedd, mae'r pellter rhwng lleoliad FPN a'r lleoliad gofal plant yn rhy bell i rieni ddarparu cludiant rhwng y ddau ar gyfer eu plentyn bob dydd. Mae hyn wedi arwain at rieni yn gorfod dewis rhwng gofal plant a FPN. Dywedodd rhai rhieni eu bod yn datrys hyn trwy fynd â'u plentyn i'r lleoliad gofal plant ar rai diwrnodau o'r wythnos ac i leoliad FPN ar weddill y diwrnodau.

Cydleoli

- 3.31 Mae cydleoli, sef darparwr plant wedi'i leoli ar safle ysgol, yn un ateb posibl i leihau'r angen i gludo plant rhwng lleoliadau FPN a lleoliadau gofal plant. Fodd bynnag, gallai hyn olygu y gwnaiff gofawyr plant golli'r cyfleoedd sydd ar gael i ddarparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig. Caiff hynny ei gyfyngu hefyd gan faint o le sydd ar gael gan ysgolion i gynnwys darpariaeth o'r fath.
- 3.32 Cyfeiriodd nifer fechan o ddarparwyr at enghreifftiau o gydleoli darpariaeth gofal plant ar yr un safle â FPN. Yn yr achosion hyn, roedd perthnasoedd gwaith oedd eisoes yn bodoli yn cefnogi darpariaeth addysg a gofal plant di-dor ar gyfer y plant oedd dan sylw, heb orfod cludo plant mewn cerbydau rhwng lleoliadau. Trwy gymorth Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru¹⁴, efallai y gwnaiff rhagor o gydweithio rhwng lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir gychwyn datblygu.

Plant sy'n cyrchu'r Cynnig Gofal Plant yn unig

- 3.33 Dywedodd nifer fechan o'r darparwyr gofal plant a gyfwelwyd (15 o blith 150) nad oedd rhai o'u rhieni wedi manteisio ar FPN oherwydd roeddent yn dymuno cyrchu elfen gofal plant y Cynnig yn unig. Roedd rhai o'r rhesymau a ddisgrifiwyd yn cynnwys rhieni yn methu cyrchu FPN oherwydd roedd eu darparwr dewisol yn llawn; rhieni yn penderfynu fod eu plentyn yn 'fodlon' â'r sefyllfa bresennol o ran gofal plant ac y byddai gorfod symud yn ystod y dydd o'r naill leoliad i'r llall yn 'tarfu' ar y plentyn. Mae'n ymddangos felly fod penderfyniad i beidio cyrchu FPN yn aml yn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau unigol teuluoedd a phlant ac ni ellir priodoli hynny'n uniongyrchol i'r Cynnig Gofal Plant. Dywedodd un darparwr gofal plant fod y Cynnig yn rhoi mwy o ddewisiadau i rieni;

¹⁴ Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ar raglen grant cyfalaf Cynnig Gofal Plant a fydd yn werth £60 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Nod y rhaglen yw cefnogi cydleoli darpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen â'r ddarpariaeth Cynnig Gofal Plant newydd ar un safle, lle bynnag y bo modd, a sicrhau bod digon o ofal plant yn yr ardaloedd priodol, â ffocws penodol ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd sydd heb wasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, yn arbennig ardaloedd gwledig a difreintiedig.

'Nid ydynt o reidrwydd yn gorfod anfon eu plentyn i FPN os nad ydynt yn credu ei fod yn barod i wneud hynny, ond mae rhywbeth ar gael iddynt oherwydd yr oriau o ofal plant a ariennir'.

(Darparwr gofal plant)

Plant sy'n cyrchu FPN yn unig

- 3.34 Dywedodd nifer fechan o ddarparwyr gofal plant (7 o blith 150) eu bod yn ymwybodol o rieni oedd wedi dewis peidio manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig, oherwydd roeddent yn dymuno cyrchu'r elfen FPN yn unig. Unwaith yn rhagor, nid oedd y rhesymau dros hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Cynnig. Er enghraifft, dywedodd un rhiant fod ganddynt 'blentyn sensitif' oedd y fwy bodlon yn y lleoliad FPN, ac roedd nain/taid yn darparu gofal plant amlapiol. Dywedodd rhiant arall eu bod yn dymuno sicrhau fod gofal plant beunyddiol eu plentyn yn cynnwys cydbwysedd rhwng y ffurfioldeb a gynigir gan leoliad ysgol ynghyd ag elfen gyfarwydd amgylchedd y cartref a ddarperir gan ofal plant anffurfiol. Fodd bynnag, dywedodd rhai darparwyr gofal plant eu bod yn ymwybodol o rieni oedd wedi dewis cyrchu FPN ond nid gofal plant er mwyn osgoi gorfod dibynnu ar gludiant i gludo'u plentyn rhwng dau leoliad.
- 3.35 Dywedodd un rhiant fod y Cynnig wedi caniatáu iddynt gyrchu gofal plant a FPN, yn lle gorfod dewis rhwng y ddau. Cyn y cynnig, nid oedd modd gwneud y trefniadau i gyrchu FPN oherwydd eu hymrwymadau gwaith.

'Heb y cynnig gofal plant, ni fyddem wedi gallu derbyn y lle Cyfnod Sylfaen oherwydd ni fyddai hynny wedi bod yn hwylus o safbwynt ariannol nac yn ymarferol. Gan siarad o brofiad, rydym yn ddiolchgar iawn, oherwydd mae ein [plentyn] wedi cael cymaint o fudd o'r dosbarth meithrin, ond wrth ystyried dewisiadau flwyddyn yn ôl, nid oeddem ni'n sylweddoli cymaint y byddai ein [plentyn] yn elwa o FPN.' (Rhiant)

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Dywedodd rhai darparwyr gofal plant y byddent yn parhau i gyflenwi FPN, oherwydd y byddai'n fwy hwylus i bob rhiant (h.y. rhai sy'n gweithio a rhai sydd ddim yn gweithio) pe byddent yn cyflenwi FPN ac elfen gofal plant y Cynnig. Fe wnaeth un darparwr egluro eu penderfyniad gan gydnabod y ffaith fod FPN ar gael i bob plentyn, ond nid felly yn achos elfen gofal plant y Cynnig: 'Fe wnaethom ni benderfynu peidio newid oherwydd fe wnaethom ni sylweddol y byddai plant sydd ddim yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant yn colli cyfle'.

- 3.36 Dywedodd llawer o ddarparwyr gofal plant eu bod yn cadw at egwyddorion FPN, er nad ydynt yn cael eu hariannu i gyflenwi hynny Yn lle ehangu'r ddarpariaeth trwy gynnig FPN, dywedodd rhai darparwyr fod gorfod sicrhau fod eu busnes yn gynaliadwy yn golygu fod angen iddynt ofalu am blant iau, oherwydd bydd plant iau yn parhau ar eu cofrestr am rai blynyddoedd. Roedd un darparwr yn ystyried addasu eu cofrestriad ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ganiatáu iddynt gynyddu nifer y lleoedd y gallent eu cynnig, a'r bwriad oedd gallu cynnig y lleoedd ychwanegol hynny i blant iau - 'mae'r Cynnig yn dylanwadu'n anuniongyrchol ar hyn oherwydd rydym ni'n gobeithio denu rhagor o blant dan ddwy oed a fydd yn gymwys i gael cyllid yn ddiweddarach' (darparwr gofal plant).
- 3.37 Er yr ymgynghorwyd â gofalwyr plant a rhieni wrth wneud y gwerthusiad hwn, ni ymgynghorwyd â meithrinfeydd a gynhelir. Yn ystod ail flwyddyn cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ac wrth barhau i ymgynghori, bwriedir ymgynghori â lleoliadau ysgolion meithrin a gynhelir i ystyried ymhellach yr alinio rhwng elfen gofal plant y Cynnig ac elfen FPN.

4. Casgliadau

- 4.1 Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn caniatáu i blant sy'n gymwys gael o leiaf 10 awr o FPN a hyd at 20 awr o ofal plant a ariennir bob wythnos yn ystod tymor yr ysgol, a 30 awr yr wythnos o ofal plant yn ystod naw o'r 13 wythnos o wyliau ysgol. Cynigir FPN i bob plentyn 3 a 4 blwydd oed; mae elfen gofal plant a ariennir y Cynnig ar gael i blant cymwys yn unig.
- 4.2 Fe wnaeth y gwerthusiad hwn ystyried a fyddai blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynnig yn gynnar yn dylanwadu ar gyflenwi FPN a'r nifer sy'n manteisio ar hynny. Yn benodol, fe wnaeth ystyried a oedd y Cynnig yn annog newid yn y galw a/neu'r cyflenwad, oddi wrth FPN tuag at ofal plant ffurfiol a ariennir.
- 4.3 Ychydig iawn o dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynnig i awgrymu fod unrhyw ddarparwyr wedi rhoi'r gorau i gynnig FPN ac wedi cynnig darpariaeth gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn lle hynny. Er y dywedodd rhai darparwyr eu bod wedi neu eu bod wrthi'n ystyried newid o'r math hwn yn eu darpariaeth, nid oes neb ohonynt wedi ymrwymo i wneud hyn.
- 4.4 Roedd rhai darparwyr mewn lleoliadau nas cynhelir yn ystyried fod cyflenwi FPN yn gyfle i gadw eu Plant sy'n Codi'n 3 Oed, a allai fel arall adael er mwyn cael FPN yn rhywle arall. Dywedodd rhai darparwyr gofal plant, a leolir mewn ardaloedd ble caiff FPN ei gyflenwi gan lleoliadau a gynhelir yn bennaf, y byddent yn croesawu'r cyfle i gyflenwi FPN. Byddai cyflenwi FPN, yn eu tyb hwy, yn gwneud eu busnes yn fwy cynaliadwy, oherwydd byddent yn gallu cadw eu plant tair a phedair blwydd oed, sydd ar hyn o bryd yn gadael eu lleoliad pan fyddant yn cyrraedd yr oedran hwn er mwyn cael FPN yn rhywle arall.
- 4.5 Ar hyn o bryd, mae nifer fechan o ddarparwyr gofal plant wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion, ac mae'r math hwn o ddarpariaeth yn ddewis sy'n cael ei ystyried yn gynyddol â chymorth Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Gall hyn gynnig ateb ar gyfer rhai dulliau o gydweithio rhwng lleoliadau addysg a gynhelir, a lleoliadau gofal plant a gynhelir a rhai nas cynhelir felly ei gilydd. Fodd bynnag, ni fyddai hynny yn cynnig ateb ym mhob achos, ac felly, efallai bydd angen rhagor i annog trefniadau cydweithio eraill rhwng y sectorau gofal plant ac addysg i sicrhau rhagor o integreiddio mewn meysydd megis darparu gofal amlapiol.

- 4.6 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn cynnig ychydig o enghreifftiau o rieni yn cyrchu elfen gofal plant y Cynnig yn unig ac nid FPN. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn cynnwys enghreifftiau o rieni sy'n gymwys i gael y Cynnig yn cyrchu'r FPN sydd ar gael yn unig. Fodd bynnag, ni ellid priodoli'r rhesymau dros y dewisiadau hyn yn uniongyrchol i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant. Roedd y dewisiadau hyn yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig ag anghenion plant unigol ac amgylchiadau teuluoedd, megis rhieni yn dewis neiniau a theidiau i ofalu am eu plentyn neu'n penderfynu nad oedd eu plentyn yn barod i fynychu lleoliad penodol.
- 4.7 Mae'r canfyddiadau yn dangos fod rhai agweddau o'r Cynnig yn dal yn peri dryswch i rai rhieni. Fe wnaeth llawer o'r rhieni a gyfwelwyd nodi nad oeddent yn deall yn llawn sut mae dwy elfen y cynnig Gofal Plant (FPN a'r oriau gofal plant a ariennir) yn cydblethu.
- 4.8 Mae cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant wedi amlygu materion oedd eisoes yn bodoli ynghylch i ba raddau mae darpariaeth gofal plant a FPN wedi'u halinio. Mae llawer o'r rhain yn adlewyrchu anghysonderau oedd eisoes yn hysbys ynghylch FPN, yn cynnwys y gwahanol fodelau o gyflenwi FPN sy'n bodoli ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Er enghraifft, mewn rhai awdurdodau lleol, gall FPN gael ei gyflenwi mewn lleoliadau a gynhelir yn unig; mae rhai awdurdodau lleol yn ariannu 10 awr yr wythnos o FPN ac mae eraill yn ariannu 12 awr neu ragor.
- 4.9 Mae cyllid ar gyfer FPN hefyd yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond mae'r cyllid i gyflenwi elfen gofal plant y Cynnig yr un fath ar gyfer bob darparwr ar draws bob EILA. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyfradd y cyllid ar gyfer gofal plant a ddarperir trwy'r Cynnig yn uwch na chyfradd y cyllid a gynigir i gyflenwi FPN.
- 4.10 Yn achos darparwyr nas cynhelir ble caiff gofal plant a FPN eu cyflenwi yn yr un lleoliad, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyllid cyflenwi gofal plant a ariennir gan y Cynnig a FPN yn creu gagendor o ran dichonoldeb masnachol cyflenwi'r ddau. Mae hyn wedi annog rhai lleoliadau nas cynhelir i ystyried y dewis o gyflenwi darpariaeth gofal plant a ariennir gan y cynllun yn hyrach na FPN. Y rheswm dros hyn yw'r ffaith fod darparu gofal plant trwy'r Cynnig yn fwy deniadol o safbwynt masnachol mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol ac mae llai o ofynion o ran cyflogi staff.

- 4.11 Mae cynnig FPN i bawb a'r cymorth ynghylch gofal plant wedi'i dargedu sydd ar gael trwy'r Cynnig Gofal Plant wedi sicrhau fod cyrchu FPN a gofal plant ffurfiol yn fwy fforddiadwy i lawer o rieni sy'n gweithio. Mewn llawer o achosion, caiff gofal plant a FPN eu cyflenwi mewn gwahanol leoliadau. O ganlyniad, mae'n rhaid gwneud trefniadau i gludo plant o un lleoliad i'r llall a defnyddio gofal amlapiol os yw hynny ar gael, er mwyn cyrchu dwy elfen y Cynnig Gofal Plant.
- 4.12 Er bod rhai rhieni yn dweud eu bod yn fodlon â'r gofal amlapiol a gaiff eu plentyn, erys heriau i rai rhieni a darparwyr. Gall gofal amlapiol a gwasanaethau cludiant arwain at gostau ychwanegol i rieni, ynghyd â heriau i ddarparwyr o ran cydlynu cludiant.
- 4.13 Mae cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant hefyd wedi amlygu ardaloedd ble nad yw elfen gofal plant y Cynnig yn alinio'n llawn â rhaglenni cymorth eraill efallai. Mae tystiolaeth lafar sy'n dod i'r amlwg hefyd yn awgrymu bod rhai darparwyr mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn ystyried rhoi'r gorau i gynnig eu darpariaeth gofal plant a ariennir gan Dechrau'n Deg er mwyn rhyddhau lleoedd ar gyfer gofal plant a ariennir gan y Cynnig, ac mae dichonoldeb masnachol yn sbarduno hynny.
- 4.14 Mae'r diffyg alinio posibl hwn rhwng gwahanol raglenni sy'n ceisio cynorthwyo rhieni a phlant yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn golygu fod rhai rhieni mewn sefyllfa ble byddant efallai yn gorfod dewis un elfen o'r Cynnig Gofal Plant yn hytrach nag un arall. O ganlyniad, gallai hyn annog rhai darparwyr gofal plant i ddewis rhwng y math o ddarpariaeth a gynigir ganddynt. Efallai na fydd y dewisiadau hyn yn rhai mwyaf buddiol i'r rhieni na'r plentyn o reidrwydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn o ran alinio, byddai meysydd Addysg a Gofal Plant yn elwa o ragor o gydweithio a chyd-ddealltwriaeth ar lefel Llywodraeth Cymru ac ar lefel awdurdodau lleol.

5. Argymhellion

5.1 Gellir ystyried yr argymhellion dilynol mewn perthynas ag alinio'r Cynnig Gofal Plant a FPN.

- *Alinio addysg a gofal plant yn agosach:* parhau i ddatblygu dull mwy cyfannol o ddarparu addysg a gofal plentyndod cynnar (ECEC). Gallai timau polisi a darpariaeth addysg a gofal plant Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol uno neu gydweithio'n agosach, i sicrhau alinio mewn perthynas â disgwyliadau ynghylch darparwyr gofal plant ac addysg, ac i sicrhau cysondeb mewn perthynas ag ECEC. Dylid ystyried cynlluniau eraill, megis Dechrau'n Deg, fel rhan o ymagwedd fwy cydgysylltiedig a chyfannol lle mae'r plentyn wastad yn y ganol
- *Addasu'r model o ddarparu FPN:* ystyried y dewis o addasu'r dull o ddarparu FPN. Mae canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch FPN yn cefnogi dulliau mwy hyblyg o ddarparu. Er enghraifft, gallai annog darparwyr i symud oddi wrth y model traddodiadol o ddarparu 2.5 awr y dydd/5 diwrnod yr wythnos helpu rhieni i gydbwysu eu hanghenion gofal plant â gofynion oriau gwaith, a gallai hynny arwain at lai o symud i blant yn ystod y dydd.
- *Trefniadau cydweithio:* gellid ystyried annog trefniadau cydweithio rhwng y sectorau gofal plant ac addysg (yn ychwanegol i Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant) i annog rhagor o integreiddio mewn meysydd megis darparu gofal amlapiol.
- *Cydleoli:* ystyried sut gall Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol annog ysgolion i archwilio'r posibilrwydd o gydleoli darparwr gofal plant ar yr un safle (unwaith eto, yn ychwanegol i Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant). Byddai hyn hefyd yn lleihau'r angen i gludo plant mewn cerbydau yn ystod y dydd.
- *Ehangu darpariaeth y Cyfnod Sylfaen:* ystyried dichonoldeb cynorthwyo gofalwyr plant, ac mewn rhai awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant nas cynhelir, i gofrestru i gyflenwi FPN. Byddai hynny felly yn golygu y byddai plant yn symud llai yn ystod y dydd a byddai hynny'n caniatáu i ddarparwyr gofal plant sicrhau parhad gofal, a chynnig cyfleoedd sy'n gyfartal â rhai lleoliadau gofal plant eraill.

Cyfeiriadau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (2017) *Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant*. Ar gael yn: http://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Resident/Health_and_Social_Care/childcare_offer/Blaenau_Gwent_Childcare_Sufficiency_Assessment_and_Action_Plan_2017_2_.pdf

Cyngor Bwrdeistref Caerffili (2016) *Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant*. Ar gael yn: <https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/Consultations/CSAssessmentReport2017.aspx>

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2018 (2018) *Bil Gofal Plant, gwybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan y pwyllgor*. Ar gael yn: <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s77255/CYPE5-22-18%20-%20Paper%20to%20note%201.html?CT=2> [Accessed 22 October 2018]

Dinas a Sir Abertawe (2017) *Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant*. Ar gael yn: <https://www.swansea.gov.uk/childcaresufficiencyassessment>

Cwlwm (2018) *Cyllid awdurdodau lleol i ddarparwyr nas cynhelir y Cyfnod Sylfaen*. Deunyddiau ychwanegol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Mehefin 2018 Ar gael yn: <http://www.senedd.assembly.wales/ieListDocuments.aspx?CId=443&MId=4803&Ver=4>

Cyngor Gwynedd (2017) *Ffurflen yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant*. Ar gael yn: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Have-your-say/Childcare-Sufficiency-Assessment-2017-2022.pdf>

Cyngor Sir y Fflint (2017) *Ffurflen yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant*. Ar gael yn: <https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Social-Services/Childrens-Social-Services/Childcare-Sufficiency-Assessment-Form-2017-English.pdf>

Cyngor Sir Ynys Môn (2017) *Ffurflen yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant*. Ar gael yn: <http://www.anglesey.gov.uk/Journals/o/l/g/Childcare-Sufficiency-Assessment-Form---FINAL-Ynys-Mon-2017.1.pdf>

NDNA (2018) *Arolwg o Feithrinfeydd Cymru*. Ar gael yn: https://www.ndna.org.uk/NDNA/News/Reports_and_surveys/Annual_Nursery_Survey/2018.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (2017) *Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant*. Ar gael yn:

<https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/ChildrenandFamilies/RelatedDocuments/CSATemplateRCTCBCFINAL.pdf>

StatsCymru (2018) *Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)*. Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census>

Llywodraeth Cymru (2018) *Darpariaeth Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed: Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol*. t. 4. Ar gael yn: https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/foundation-phase-provision-for-three-and-four-year-olds-guidance-for-local-authorities-in-wales_0.pdf

Llywodraeth Cymru (2018) *Sut mae fy mhlentyn yn ymdopi yn y Cyfnod Sylfaen? Canllaw i rieni*. t. 3. Ar gael yn: <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-06/how-is-my-child-doing-in-the-foundation-phase-a-guide-for-parents-and-carers.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018) *Nodyn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a ddarparwyd mewn llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2018*, Ar gael yn: <http://www.senedd.assembly.wales/mgConsultationDisplay.aspx?id=301&RPID=1510425084&cp=yes> (Rhif y dystiolaeth FI CCF 07).

Llywodraeth Cymru (2016) *Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen*. t. 4. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/161103-fp-action-plan-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015) *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, diwygiwyd 2015*. t. 2. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150803-fp-framework-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015) *Adroddiad Terfynol Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen*. Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/?lang=en>

Llywodraeth Cymru (2016) *Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol*. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161208-evaluation-foundation-phase-flexibility-pilot-scheme-en.pdf>

Llywodraeth (2014) *Archwiliad annibynnol o ba mor effeithiol yw'r cyfnod sylfaen* (2014) ar gael yn: <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/an-independent-stocktake-of-the-foundation-phase-in-wales-final-report.pdf>

Atodiad A: Sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y gwerthusiad

Arolygiaeth Gofal Cymru

Plant yng Nghymru

Comisiynydd Plant Cymru

Chwarae Teg

Clybiau Plant Cymru

Blynyddoedd Cynnar Cymru (a elwid yn Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn laenorol)

Timau Cynnig Gofal Plant EILA

Estyn

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mudiad Meithrin

NDNA (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd)

PACEY (Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar)


Chwarae Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru

Llywodraeth Cymru (swyddogion o dimau'r Cynnig Gofal Plant, y Cyfnod Sylfaen, Menter a phrosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

Atodiad B: Model Rhesymeg y Cynnig Gofal Plant i Gymru



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dyddiedig Ebrill 2018.


Atodiad C: Cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen yn yr EILAs a'r nifer sy'n manteisio hynny

Cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen yn ôl lleoliad	Nifer sy'n Manteisio ar y Cyfnod Sylfaen
Ynys Môn a Gwynedd: Oriau'r Cyfnod Sylfaen a gynigir bob wythnos: 10	
Ynys Môn - 32 cylch meithrin cyfrwng Cymru a 10 Cylch Chwarae yn y sector nas cynhelir. Mae 41 ysgol gynradd yn cynnig darpariaeth gan gychwyn y mis Medi wedi trydydd pen-blwydd y plentyn. Nid yw meithrinfeydd dydd a gofalwyr plant yn cyflenwi Addysg Blynyddoedd Cynnar Ran-amser yn Ynys Môn (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ynys Môn, t. 39) Gwynedd - 66 darparwr Addysg Blynyddoedd Cynnar (62 cylch meithrin y Mudiad Meithrin, 1 Cylch Chwarae a 3 feithrinfa gofal dydd llawn). 59 – cyfrwng Cymraeg; 7 Cymraeg a Saesneg. Ni ariennir unrhyw ofalwyr plant i gyflenwi Addysg Blynyddoedd Cynnar. Ariennir 89 ysgol i gyflenwi Addysg Blynyddoedd Cynnar (yn cynnwys un darparwr Cymraeg a Saesneg). 2243 o leoedd Addysg Gynnar, 1097 o'r rhain mewn lleoliadau gofal plant a 1146 yn Ysgolion Cynradd yr Awdurdod Lleol). (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Gwynedd, t. 112)	Ynys Môn - 800 lle ar gael yn y sector nas cynhelir ac roedd 757 lle wedi'u llenwi yng Ngorffennaf 2016. Mae gan ysgolion leoedd ar gyfer 760 o blant ac mae 680 o blant yn mynychu (mae tair ysgol yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn – sy'n dyblu nifer y lleoedd a gynigir) (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, t. 39) Gwynedd - ariennir 639 o blant; roedd 580 yn 3 blwydd oed a 59 yn 4 blwydd oed (haf 2016) (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, t. 113)

Blaenau Gwent: Oriau'r Cyfnod Sylfaen a gynigir bob wythnos: 10 ar gyfer plant 3 blwydd oed, 12.5 ar gyfer plant 4 blwydd oed	
Mae dau leoliad nas cynhelir yn cynnig addysg blynyddoedd cynnar a 24 ysgol gynradd (yn cynnwys un cyfrwng Cymraeg) (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Blaenau Gwent, t. 70)	Cafodd 14 o blant le mewn lleoliadau nas cynhelir a chafodd 1466 o blant le mewn ysgolion. Y nifer sy'n manteisio ar y Cyfnod Sylfaen: 2015/2016 – 91%; 2014/2015 – 95%; 2013/2014 – 82% (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, t. 70-71)
Caerffili: Oriau'r Cyfnod Sylfaen a gynigir bob wythnos: 10 (isafswm)	
Mae 12 darparwr Gofal Plant yn cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen (5 cyfrwng Saesneg / 7 cyfrwng Cymraeg) Mae 71 ysgol yn cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen (59 cyfrwng Saesneg/11 cyfrwng Cymraeg) (nid yw 8 ysgol cyfrwng Saesneg, 2 ysgol cyfrwng Cymraeg ac 1 ysgol Ffydd yn cynnig lleoedd i Blant sy'n Codi'n 3 Oed). Nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob blwyddyn academaidd ym mhob ysgol ar gyfer Addysg Blynyddoedd Cynnar yw 2,412 o leoedd (2004 cyfrwng Saesneg/408 cyfrwng Cymraeg). Mae 17 o blant yn cael lleoedd Addysg Blynyddoedd Cynnar yng Nghasnewydd, ac mae 3 yn mynychu yng Nghaerffili o du allan i'r sir. Roedd 105 o leoedd Blynyddoedd Cynnar ar gael mewn lleoliadau gofal plant (haf 2016). Mae 25 o'r 75 ysgol gynradd yn cynnig gofal amlapiol. (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Caerffili, t. 197-8; t. 275).	Nifer sy'n manteisio ar leoedd i Blant sy'n Codi'n 3 Oed mewn ysgolion cynradd ar gyfer haf 2016 - 984. Nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn lleoliadau nas cynhelir - 105. Nifer sy'n manteisio ar leoedd i Blant sy'n Codi'n 4 Oed 2015/16 - 2,047 (1,673 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg / 374 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg). Nid oedd yr adran derbyn yn gallu dweud beth oedd y ganran sy'n manteisio ar y lleoedd sydd ar gael, oherwydd nid yw'r nifer sy'n gymwys yn hysbys. (Cynigir darpariaeth i Blant sy'n Codi'n 3 Oed y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3; mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli plant sy'n cael eu pen-blwydd yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn yn unig (h.y. 7/12 o gohort blwyddyn lawn o enedigaethau byw)). (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, t. 197) Fe wnaeth 66.6% fanteisio ar eu Hawl i gael Addysg Blynyddoedd Cynnar i'w plant (arolwg o rieni n=126) (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, t. 200)

Sir y Fflint: Oriau'r cyfnod sylfaen a gynigir bob wythnos: 12.5	
Mae 60 o ddarparwyr gofal plant yn cyflenwi addysg Blynyddoedd Cynnar; (22 gofal dydd llawn a 28 gofal sesiynol). Nid oes unrhyw ofalwyr plant yn cyflenwi Addysg Blynyddoedd Cynnar. (Saith cyfrwng Cymraeg). Mae 21 lleoliad a gynhelir yn ysgolion yr awdurdod lleol sydd â dosbarthiadau meithrin yn cyflenwi Addysg Blynyddoedd Cynnar. Nid oes unrhyw ysgolion Cymraeg yn rhedeg darpariaeth a gynhelir, ond mae pedair ysgol yn darparu Addysg Gynnar ar y safle trwy ddarpariaeth nas cynhelir. Mae 1105 o leoedd Addysg Blynyddoedd Cynnar ar gael; mae 985 o'r rhain mewn lleoliadau gofal plant, ac mae oddeutu 120 yn ysgolion yr awdurdod lleol (haf 2016). (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Sir y Fflint, t. 59).	Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn amrywio o tua 45% yn nhymor yr Hydref i 77% yn nhymor yr Haf pan geir y nifer fwyaf o blant sy'n gymwys. (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, t. 59)
Rhondda Cynon Taf: Oriau'r Cyfnod Sylfaen a gynigir bob wythnos: 15 o'r tymor yn dilyn trydydd pen-blwydd y plentyn, 30 o'r tymor yn dilyn y pedwerydd pen-blwydd	
25 o Ddarparwyr Addysg Cofrestredig (Rhagfyr 2016). Mae chwech o'r rhain yn ddarparwyr gofal dydd llawn; mae 19 yn ddarparwyr gofal sesiynol (15 cyfrwng Cymraeg). Mae 102 ysgol gynradd yn cynnig addysg feithrin. (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf t. 126)	Roedd 878 o blant tair blwydd oed yn cael addysg feithrin mewn ysgolion, ac roedd 2779 o blant pedair oed yn cael y ddarpariaeth hon (haf 2016). (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, t. 128)
Abertawe: Oriau'r Cyfnod Sylfaen a gynigir bob wythnos: 10	
Amcangyfrif o'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer haf 2017 - 3,466 o leoedd mewn 79 ysgol gynradd (68 cyfrwng Saesneg / 11 cyfrwng Cymraeg) (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Dinas a Sir Abertawe, t. 115-116)	Cyfartaledd o 89.29% ar draws ardal Abertawe yn 'hawlio' eu lle addysg gynradd (arolwg o rieni, n=400) (Ffynhonnell: Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, t. 154)

Atodiad D: Fframwaith rhesymeg ar gyfer alinio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru i FPN



*Ffynhonnell: Cwlwm (2018) Cyllid awdurdodau lleol i ddarparwyr nas cynhelir y Cyfnod Sylfaen